GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG

136 - Rheoliadau Plaladdwyr (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Gosodwyd yn Senedd y DU: 19 Mehefin 2019

Sifftio	
A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	2 Gorffennaf 2019
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	2 Gorffennaf 2019
Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	8 Gorffennaf 2019
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 12
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen
Gweithdrefn graffu	
Canlyniad y broses sifftio	Anhysbys
Gweithdrefn	Negyddol neu gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 8(1), a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud mân ddiwygiadau technegol i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE sy'n cynnwys y cynhyrchion diogelu planhigion a'r cyfundrefnau lefelau gweddillion uchaf, er mwyn i'r ddeddfwriaeth barhau i weithredu'n effeithiol yn ar ôl ymadael â'r UE. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu cyfres o Reoliadau diangen yr UE.

Gwneir rhai o'r newidiadau o ganlyniad i'r newid yn "diwrnod ymadael" o 29 Mawrth 2019, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE sydd wedi dod i rym yn ystod cyfnod yr estyniad. Mae'r Rheoliadau hefyd yn

cywiro'r camgymeriadau mewn offerynnau cynharach a wnaethpwyd o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.
Mae'r Rheoliadau yn gymwys i'r DU gyfan ac nid yw'n gweithredu polisi newydd.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 24 Mehefin 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.